# Cyflawni hylendid y dwylo i atal lledaenu heintiau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau hylendid effeithiol y dwylo i sicrhau nad yw micro-organebau niweidiol posibl yn lledaenu heintiau. Mae'r safon hon yn berthnasol i bawb sy'n gweithio ym mhob amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys lleoliadau cymunedol a chartref a lleoliadau gofal ambiwlans.

Dwylo yw'r ffordd fwyaf cyffredin o drosglwyddo micro-organebau i bobl, yn enwedig pobl sy'n gallu cael eu heintio'n hawdd. Hylendid effeithiol y dwylo yw'r arfer unigol pwysicaf oll wrth leihau lledaeniad cyfryngau heintus, yn enwedig bacteria a feirysau, wrth ddarparu gofal. Mae gan bawb gyfrifoldeb personol i sicrhau hylendid effeithiol y dwylo.

Dylai'r safon gael ei defnyddio ochr yn ochr â deddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon sicrhau bod ymarfer yn adlewyrchu gwybodaeth a pholisïau cyfredol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael at a dehongli'n gywir yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
2. gweithio'n ddiogel bob amser ac yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau perthnasol
3. delio'n brydlon ac yn effeithiol ag unrhyw broblemau o fewn eich rheolaeth a rhoi gwybod am broblemau nad allant gael eu datrys
4. nodi a lleihau peryglon a risgiau yn y gweithle
5. asesu'r angen i sicrhau hylendid effeithiol y dwylo i atal lledaenu haint yn barhaus
6. paratoi i gyflawni gweithgareddau hylendid y dwylo yn unol â gofynion y sefydliad
7. cyflawni gweithgareddau hylendid y dwylo yn unol â gofynion y sefydliad
8. cwblhau gweithgareddau hylendid y dwylo a sychu dwylo yn unol â gofynion y sefydliad
9. osgoi halogi eich dwylo rhwng hylendid y dwylo a chyflawni'r gweithgaredd
10. sicrhau bod ewinedd yn fyr ac yn lân, heb farnais ewinedd nac ewinedd ffug ac ategolion
11. asesu eich dwylo, cyn pob sifft waith, am friwiau, craciau a thoriadau yn y croen a allai guddio micro-organebau
12. gorchuddio unrhyw doriadau a chrafiadau â gorchudd gwrth-ddŵr, newid y gorchudd pan fo angen a chadw'r ardal yn lân i leihau risg haint
13. hydradu croen y dwylo yn dda gan ddefnyddio lleithydd, fel y bo'n briodol
14. rhoi gwybod i bob eraill berthnasol am unrhyw broblemau'r croen fel y gellir cynnal asesiad
15. gwaredu gwastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
16. cwblhau a storio'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth, y canllawiau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r protocolau presennol sy'n berthnasol i'ch ymarfer yn y gwaith, ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
2. cwmpas a chyfyngiadau eich cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd eich hun fel y bo'n berthnasol i'ch rôl
3. sut i gael at a dehongli'r holl wybodaeth a chyfarwyddiadau gwaith sy'n berthnasol
4. gweithdrefnau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sydd y tu hwnt i'ch cymhwysedd, eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd
5. y ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw weithred neu anwaith a allai fod yn anniogel/yn niweidiol i chi neu i eraill
6. y peryglon a'r risgiau a allai godi wrth i chi gyflawni eich rôl a sut y gallwch eu lleihau
7. y defnydd cywir o unrhyw gyfarpar a chyfarpar diogelu personol (PPE) i amddiffyn eich iechyd a'ch diogelwch chi a phobl eraill
8. rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol, perthnasol, deddfwriaeth/canllawiau cenedlaethol a pholisïau/gweithdrefnau lleol
9. y gadwyn heintio
10. hierarchaeth mesurau rheoli
11. camau allweddol hylendid y dwylo
12. pwysigrwydd bod 'yn noeth islaw'r penelin' i sicrhau hylendid effeithiol y dwylo
13. sut gall gemwaith y dwylo a'r arddwrn, ewinedd artiffisial, nwyddau ac ategolion ewinedd guddio micro-organebau
14. sut i gael at gyfleusterau a deunyddiau ar gyfer hylendid y dwylo
15. y gwahanol fathau o ddeunyddiau hylendid y dwylo, gan gynnwys sebonau a hylifau diheintio'r dwylo ag alcohol yn sail iddynt
16. manteision/anfanteision sebon neu hylifau diheintio'r dwylo ag alcohol yn sail iddynt, a sut a phryd i ddewis y dull cywir
17. yr amgylchiadau pan na fyddai hylifau diheintio'r dwylo ag alcohol yn sail iddynt yn briodol ar gyfer hylendid y dwylo
18. dulliau eraill o sicrhau hylendid y dwylo i'w defnyddio pan fydd diffyg cyfleusterau neu pan na fydd dŵr tap ar gael
19. technegau hylendid y dwylo i sicrhau hylendid effeithiol y dwylo i chi'ch hun ac i

eraill

20. pwysigrwydd cadw eich dwylo yn iach
21. sut a phryd i roi gwybod am unrhyw broblemau
22. sut i gael gwared ar wastraff yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
23. sut i gwblhau'r holl ddogfennaeth berthnasol yn unol â gofynion y sefydliad, a'i storio'n ddiogel

SFHIPC2

Cyflawni hylendid y dwylo i atal lledaenu heintiau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Health |
| **RCU gwreiddiol** | SFHIPC1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **Cyfres/Set** | Atal a rheoli heintiau |
| **Geiriau Allweddol** | Rolau Iechyd a Gofal Cymdeithasol |